Y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2

BA Addysg 2A

ECAD5008

Darlithydd: Nia Wyn Evans

Darlith 1: 18fed o Chwefror 2020


Heddiw, fe fyddwn ni yn:

- ystyried sefyllfa bresennol Y Gymraeg.
- gosod addysg yng Nghymru yn ei chyd-destun presennol.
- ymgyfarwyddo â'r dogfennau priodol.
- ystyried: **sut** ydw i'n addysgu'r disgyblion?
- ystyried: **beth** ydw i'n addysgu i'r disgyblion?

Beth yw sefyllfa'r Gymraeg heddiw?

- Yn ôl cyfrifiad 1911, roedd 977,366 o siaradwyr Cymraeg yn byw yng Nghyrmu, (sef 43.5% o'r boblogaeth).

- Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd y nifer a'r ganran wedi haneru, gyda 562,000 o siaradwyr Cymraeg bellach yn byw yng Nghymru, (sef 19% o'r boblogaeth).



Beth wnaeth Llywodraeth Cymru?



Mae hon yn strategaeth i Gymru gyfan, ac rydym am i bob rhan o'r wlad rannu'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Mae yna botensial am dwf yn y niferoedd o siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny o Gymru sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canrannau is o siaradwyr Cymraeg.

(Tudalen 7)


“Mae’r Gymraeg yn un o drysorau Cymru…… Ein huchelgais ni fel Llywodraeth Cymru yw gweld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio’r Gymraeg erbyn 2050. Does dim dwywaith fod hon yn uchelgais heriol ……”

Rhagair Carwyn Jones AC (Prif Weinidog yn 2017) ac Alun Davies AC (Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn 2017)



Dyma'r cyd-destun .....

Siart 2: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011–2050





Beth amdanom ni?


- “… y system addysg a hyfforddiant yw’r prif ddull o greu siaradwyr Cymraeg newydd.”

  (tud 31, Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr)






Siarad mwy nag un iaith?
Cwrdeg
Basgeg
Cymraeg
Maori
Tamil
Catalaneg
Romansh
Mae
65%
o boblogaeth y byd yn (o leiaf) ddwyieithog.
Galician
Amhareg
Affricaneg
Gwyddeleg


Meddyliwch am iaith fel hyn...
Think of language like this...
Mi fedrwch fynd i lefydd ar un olwyn (iaith)
You can go to places on one wheel (language)
Felly hefyd ar olwyn fawr ac olwyn fach
You can also do so on one big wheel and one small wheel
Ond pan fo'r ddwy olwyn yr un maint ac mewn cyflwr da mi ewch ymhellach o lawer
But when both wheels are of the same size and in good condition you will go much further
CEREDIGION
cered
CYMRAEG

Felly, ...



Beth sy'n digwydd yn yr ysgolion?

- Mae'r Siarter Iaith yn gynllun newydd er mwyn hybu'r defnydd o Gymraeg yn gymdeithasol yn ysgolion cynradd Cymru.

- Mae dau gymeriad newydd wedi cael eu cyflwyno, sef Seren a Sbarc.

- Fel rhan o'r Siarter, mae pob ysgol unigol yn cwblhau ymarfer sylfaenol i bennu defnydd o'r iaith cyn datblygu cynllun gweithredu i weithio tuag at wobr efydd, arian neu aur. Mae'r cynllun yn annog cyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol - yn ddisgyblion, rhieni, llywodraethwyr ysgol a'r gymuned ehangach.





Ydych chi wedi clywed……?

- Mae Y CWRICWLWM I GYMRU wedi cael ei gyhoeddi ar yr 28ain o Ionawr, 2020.
- Bydd Y CWRICWLWM I GYMRU yn newid y ffordd mae plant a phobl ifanc yn dysgu o fis Medi 2022 ymlaen.
- Bydd ysgolion yn gyfrifol am ysgrifennu cwricwlwm eu hunain (hynny yw, yn penderfynu **beth** ddylen nhw ddysgu, **sut** ddylen nhw ddysgu a **pham** ddylen nhw ddysgu hyn).



<u>Newidiadau mwyaf amlwg:</u>

1. Fydd neb yn dweud wrth ysgolion beth yn union i'w ddysgu yn eu gwersi;
2. Ond, fe fydd yna ddeddf newydd yn dweud beth fydd RHAID rhoi yn y cwricwlwm newydd;
3. Bydd rhaid bod pob ysgol yn ysgrifennu cwricwlwm sydd yn helpu plant a phobl ifanc i gyflawni'r 4 prif nod, sef Y PEDWAR DIBEN.


Crëwyd gan @ImpactWales

Hawlfraint © 2018

4 DIBEN Cwricwlwm i Gymru

Pam bod angen 4 Diben arnom?

- er mwyn i bob athro ac arweinydd ddilyn cenhadaeth gyfun.
- er mwyn gosod gweledigaeth gyfun ar gyfer dyheadau ein disgyblion.



Sut y dylem ddefnyddio'r Dibenion

- fel canllaw wrth ddewis cynnwys y cwricwlwm.
- fel fframwaith wrth ddewis yr addysgeg fwyaf addas

Wrth ymrwymo i'r 4 diben bydd athrawon yn deall a chydweddu â gweledigaeth gyfun ar gyfer addysg yng Nghymru.

Wrth wneud dewisiadau am gynnwys, addysgeg ac asesu bydd defnydd y 4 diben yn datblygu ein system o welliant parhaus.


Ategwyd 4 Diben Cwricwlwm i Gymru gan:

Egwyddorion a gorfforwyd yng nghytundeb y CENHEDLOEDD UNEDIG ar Hawliau'r Plentyn	Iaith a Diwylliant Cymreig	Egwyddorion addysg gynhwysol	Rôl gymunedol a dinesig ysgolion	Iechyd a lles disgyblion

6 Maes Dysgu a Phrofiad



Y Celfyddydau Mynegiannol



Iechyd a Lles



Y Dyniaethau



Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Mathemateg a Rhifedd



Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Beth sy'n digwydd a phryd?




… ond …

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

- Bydd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn gyfrifoldebau statudol ar draws pob maes dysgu a phrofiad a bydd angen eu hystyried ym mhob agwedd ar ddylunio'r cwricwlwm. Cyfrifoldeb yr athrawon fydd cynllunio cynnydd ar draws yr holl ystod o sgiliau o ran llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol.

- Mater i'w benderfynu arno ar lefel leol yw sut y bydd sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn cael eu datblygu ar draws pob maes dysgu a phrofiad - a rhaid i hynny gweddu hefyd i ddulliau gweithredu'r ysgolion unigol. Er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn datblygu lefelau uchel o gymhwysedd yn y sgiliau hyn, ac yn cael digon o gyfleoedd i'w datblygu, eu hymestyn a'u cymhwyso ar draws y cwricwlwm, bydd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn parhau i fod ar gael.

- Byddwch yn sylwi ar newid strwythurol i'r fframwaith, a bod sgiliau, erbyn hyn, yn cael eu dangos fesul cam cynnydd yn hytrach na grwpiau blwyddyn. Bydd angen mireinio er mwyn sicrhau bod y fframwaith yn diwallu anghenion dysgwyr.

(Llywodraeth Cymru)

Trafodwch:

Beth ydy iaith?



laith

eb. ll. ***ieithoedd, ieith(i)au, ieithydd.***

Cyfangorff y geiriau a arferir gan genedl (pobl, cymuned, &c.) neilltuol, ynghyd â'r dulliau o'u cyfuno, wrth siarad neu wrth ysgrifennu, i fynegi syniadau, teimladau, anghenion, &c.; seiniau synhwyrol neu ystyrlon a gynhyrchir â'r llais dynol, llafar dyn yn gyffredinol heb ystyried gwahaniaethau cenedlaethol……..

Trafodwch:

Beth ydy llythrennedd?



llythrennedd

[llythyren+-edd1]

eg.

Y gallu i ddarllen ac ysgrifennu:


literacy.

Deuparth gwaith ei ddechrau ….

Rhaglen Astudio

llinyn

elfen



continwwm

agwedd

print arferol

print bras

Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Cymraeg

Llinyn: Llafaredd

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 3 Mae dysgwyr yn gallu:	Blwyddyn 4 Mae dysgwyr yn gallu:	Blwyddyn 5 Mae dysgwyr yn gallu:	Blwyddyn 6 Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	**Siarad**	esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio geirfa briodol	esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio adnoddau cynorthwyol, *e.e. deunyddiau ar sgrin ac ar y we*	esbonio gwybodaeth a syniadau, archwilio a defnyddio ffyrdd o argyhoeddi, *e.e. defnydd o eirfa, ystum, cynorthwyon gweledol*	mynegi barn a syniadau'n eglur gan ddefnyddio geirfa arbenigol ac enghreifftiau
		trefnu'r hyn y maent yn ei ddweud fel bod y gwrandawyr yn gallu dilyn, *e.e. pwysleisio pwyntiau allweddol, rhoi esboniad yn ei drefn*	trefnu sgwrs er mwyn i gynulleidfaoedd gwahanol ddilyn yr hyn sy'n cael ei ddweud, *e.e. rhoi gwybodaeth gefndir, rhoi crynodeb byr o'r prif bwyntiau*	siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol a thaflu'r llais yn effeithiol i gynulleidfa fawr, *e.e. digwyddiad i rieni/gofalwyr, cyflwyniad i ymwelwyr*	siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio mynegiant, tôn a chryfder y llais, i gadw diddordeb y gwrandawyr
		siarad yn eglur gan amrywio'r mynegiant i helpu'r gwrandawyr	addasu sgwrs gan ddangos eu bod yn deall y gwahaniaethau rhwng sgwrs anffurfiol ymhlith ffrindiau a sgwrs fwy estynedig â grŵp ehangach, *e.e. defnyddio ti/chi*		
		defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd mwy ffurfiol, *e.e. yn ystod y gwasanaeth, siarad ag ymwelydd (gan ddechrau defnyddio ti/chi)*			
		cadw mewn rôl a chynorthwyo eraill wrth chwarae rôl	archwilio sefyllfaoedd gwahanol drwy chwarae rôl	archwilio dadleuon a themâu drwy chwarae rôl	archwilio materion heriol neu ddadleuol drwy barhau i gynnal y rôl y maent yn ei chwarae
		dechrau defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ❖	**datblygu eu gallu i ddefnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol** ❖	**deall pryd mae angen defnyddio iaith ffurfiol ac anffurfiol yn briodol** ❖	**defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol** ❖
		datblygu eu gallu i ddefnyddio ystod o batrymau cystrawennol naturiol y Gymraeg a geirfa (gan gynnwys terminoleg) wrth siarad ❖	**defnyddio a dangos rhywfaint o afael ar batrymau cystrawennol y Gymraeg a geirfa (gan gynnwys terminoleg) wrth siarad** ❖	**datblygu eu gallu i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau cystrawennol naturiol y Gymraeg a geirfa (gan gynnwys terminoleg) wrth siarad** ❖	**defnyddio a dangos gafael ar ystod eang o batrymau cystrawennol naturiol y Gymraeg a geirfa yn gywir (gan gynnwys terminoleg) wrth siarad** ❖
		dechrau meithrin cywirdeb wrth siarad, *e.e. dechrau defnyddio ffurfiau safonol berfau sy'n berthnasol i'r cyd-destun a'u rhedeg, rhedeg rhai arddodiaid a defnyddio cenedl enwau sydd o fewn cylch eu profiad* ❖	**meithrin cywirdeb wrth siarad, *e.e. defnyddio amrywiaeth o ferfau a'u rhedeg (ffurfiau presennol, gorffennol a negyddol), rhedeg arddodiaid a defnyddio cenedl enwau*** ❖	**datblygu eu gallu i feithrin cywirdeb wrth siarad, *e.e. defnyddio ffurfiau safonol amrywiaeth o ferfau a'u rhedeg, defnyddio cenedl enwau a rhedeg arddodiaid*** ❖	**meithrin cywirdeb ar lafar, *e.e. defnyddio amrywiaeth o ferfau a'u rhedeg, defnyddio'r amodol a negyddu brawddegau'n gywir, rhedeg arddodiaid a defnyddio cenedl enwau*** ❖

Ond, beth am Cwricwlwm i Gymru?

- Wedi cyhoeddi'r cwricwlwm newydd, mae cyfnod o ymgyfarwyddo ac arbrofi'n dechrau.

- Nid yw'n statudol i flynyddoedd Meithrin i flwyddyn 7 **tan fis Medi 2022**.

- Mae'r gofyn ar addysgu o fewn y chwe Maes Dysgu a Phrofiad.

- Ond, MAE'N RHAID CAEL SGILIAU SYLFAENOL DA er mwyn llwyddo ym mhob un o'r meysydd dysgu a phrofiad.

Trafodwch:

Beth ydy sgiliau sylfaenol?



Amser i feddwl …



- Faint o blant yr ysgol / dosbarth sy'n dod o gartrefi Cymraeg?
- Faint o blant, felly, sy'n clywed y Gymraeg y tu allan i furiau'r ysgol?
- Pwy, felly, sydd â'r cyfrifoldeb o addysgu'r Gymraeg iddyn nhw?
- Pwy yw'r model llafar cyntaf a glywant?

Sgiliau llafar dyddiol
(yn y Cyfnod Sylfaen)



- Amser cofrestru: drilio, drilio, drilio
- Pwysigrwydd holi, holi, ac holi cwestiynau
- Disgwyliadau uchel o ran atebion
- Dangos arfer da - model llafar DA a CHYWIR
- Dysgu caneuon a rhigymau



Munud i feddwl …
Yn CA2 ydyn ni'n manteisio i'r eithaf ar bob cyfle i atgyfnerthu a drilio patrymau iaith?

Sesiwn sgwrs

Hoffwn i fynd …




Sesiwn sgwrs

Fy hoff bryd bwyd …



Sesiwn sgwrs

Fy hoff lyfr …



Sesiwn sgwrs

Nid oes lle i ffonau symudol mewn ystafell ddosbarth.

Sesiwn sgwrs

Pe bawn i'n filiwnydd …



Sesiwn sgwrs

Pe bawn i'n gallu hedfan ...



Sesiwn sgwrs



Sesiwn sgwrs



Sesiwn sgwrs

Cymro da yw ...

Sesiwn sgwrs

Gorau chwarae, cydchwarae

Sesiwn sgwrs

Mae meistr
ar meistr Mostyn.

Sesiwn sgwrs

Mwya'r brys,
mwya'r rhwystr.

DYMA FI!
1.
2.
3.
4.
5.

DYMA FI!
1.
2.
3.
4.
5.

DYMA FY FFRIND!
1.
2.
3.
4.
5.


DYMA FY FFRIND!
1.
2.
3.
4.
5.

DYMA FY FFRIND!
1. Yn gyntaf, hoffwn gyflwyno ...
2. Yn ail, mae hi / mae e'n ...
3. Hefyd, ….
4. Yn ogystal â hyn, ...
5. Yn olaf, ...

DYMA FY FFRIND!
1. Yn gyntaf, hoffwn gyflwyno ...
2. Yn ail, mae hi / mae e'n ...
3. Hefyd, ….
4. Yn ogystal â hyn, ...
5. Yn olaf, ...

Sut ydw i'n gwybod beth sydd angen addysgu i'r disgyblion?

- Cofiwch fod POB amcan dysgu / nod y wers yn dod o'r Rhaglen Astudio (neu o'r Maes Dysgu a Phrofiad pan ddaw cwicwlwm i Gymru i rym).





Munud i feddwl ...

- Edrychwch ar dudalen 3 o Raglen Astudio ar gyfer Cymraeg.

- Wrth wneud gweithgareddau llafar tebyg i'r rhai blaenorol, a hynny'n ddyddiol, ystyriwch pa sgil(iau) sydd yn cael eu datblygu?




Datblygu sgiliau Llafaredd

Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Cymraeg

Llinyn: Llafaredd

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 3 Mae dysgwyr yn gallu:	Blwyddyn 4 Mae dysgwyr yn gallu:	Blwyddyn 5 Mae dysgwyr yn gallu:	Blwyddyn 6 Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	**Siarad**	esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio geirfa briodol	esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio adnoddau cynorthwyol, *e.e. deunyddiau ar sgrin ac ar y we*	esbonio gwybodaeth a syniadau, archwilio a defnyddio ffyrdd o argyhoeddi, *e.e. defnydd o eirfa, ystum, cynorthwyon gweledol*	mynegi barn a syniadau'n eglur gan ddefnyddio geirfa arbenigol ac enghreifftiau
		trefnu'r hyn y maent yn ei ddweud fel bod y gwrandawyr yn gallu dilyn, *e.e. pwysleisio pwyntiau allweddol, rhoi esboniad yn ei drefn*	trefnu sgwrs er mwyn i gynulleidfaoedd gwahanol ddilyn yr hyn sy'n cael ei ddweud, *e.e. rhoi gwybodaeth gefndir, rhoi crynodeb byr o'r prif bwyntiau*	siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol a thaflu'r llais yn effeithiol i gynulleidfa fawr, *e.e. digwyddiad i rieni/gofalwyr, cyflwyniad i ymwelwyr*	siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio mynegiant, tôn a chryfder y llais, i gadw diddordeb y gwrandawyr
		siarad yn eglur gan amrywio'r mynegiant i helpu'r gwrandawyr	addasu sgwrs gan ddangos eu bod yn deall y gwahaniaethau rhwng sgwrs anffurfiol ymhlith ffrindiau a sgwrs fwy estynedig â grŵp ehangach, *e.e. defnyddio ti/chi*		
		defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd mwy ffurfiol, *e.e. yn ystod y gwasanaeth, siarad ag ymwelydd (gan ddechrau defnyddio ti/chi)*			
		cadw mewn rôl a chynorthwyo eraill wrth chwarae rôl	archwilio sefyllfaoedd gwahanol drwy chwarae rôl	archwilio dadleuon a themâu drwy chwarae rôl	archwilio materion heriol neu ddadleuol drwy barhau i gynnal y rôl y maent yn ei chwarae
		dechrau defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol ❖	**datblygu eu gallu i ddefnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol** ❖	**deall pryd mae angen defnyddio iaith ffurfiol ac anffurfiol yn briodol** ❖	**defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol** ❖
		datblygu eu gallu i ddefnyddio ystod o batrymau cystrawennol naturiol y Gymraeg a geirfa (gan gynnwys terminoleg) wrth siarad ❖	**defnyddio a dangos rhywfaint o afael ar batrymau cystrawennol y Gymraeg a geirfa (gan gynnwys terminoleg) wrth siarad** ❖	**datblygu eu gallu i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau cystrawennol naturiol y Gymraeg a geirfa (gan gynnwys terminoleg) wrth siarad** ❖	**defnyddio a dangos gafael ar ystod eang o batrymau cystrawennol naturiol y Gymraeg a geirfa yn gywir (gan gynnwys terminoleg) wrth siarad** ❖
		dechrau meithrin cywirdeb wrth siarad, *e.e. dechrau defnyddio ffurfiau safonol berfau sy'n berthnasol i'r cyd-destun a'u rhedeg, rhedeg rhai arddodiaid a defnyddio cenedl enwau sydd o fewn cylch eu profiad* ❖	**meithrin cywirdeb wrth siarad, *e.e. defnyddio amrywiaeth o ferfau a'u rhedeg (ffurfiau presennol, gorffennol a negyddol), rhedeg arddodiaid a defnyddio cenedl enwau*** ❖	**datblygu eu gallu i feithrin cywirdeb wrth siarad, *e.e. defnyddio ffurfiau safonol amrywiaeth o ferfau a'u rhedeg, defnyddio cenedl enwau a rhedeg arddodiaid*** ❖	**meithrin cywirdeb ar lafar, *e.e. defnyddio amrywiaeth o ferfau a'u rhedeg, defnyddio'r amodol a negyddu brawddegau'n gywir, rhedeg arddodiaid a defnyddio cenedl enwau*** ❖

Meithrin cywirdeb wrth siarad ...



A fedrwch chi ddweud y frawddeg gan ddefnyddio ….?

yr amser presennol


y dyfodol

yr amser amherffaith

yr amser amherffaith negyddol

ffurf gryno'r ferf

Meithrin cywirdeb wrth siarad ...



A fedrwch chi ddweud y frawddeg gan ddefnyddio ….?

yr amser presennol


y dyfodol

yr amser amherffaith

yr amser amherffaith negyddol

ffurf gryno'r ferf

Meithrin cywirdeb wrth siarad ...



A fedrwch chi ddweud y frawddeg gan ddefnyddio ….?

yr amser presennol

y dyfodol

yr amser amherffaith

yr amser amherffaith negyddol

ffurf gryno'r ferf

Datblygu sgiliau Llafaredd

Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Cymraeg

Llinyn: Llafaredd

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 3 Mae dysgwyr yn gallu:	Blwyddyn 4 Mae dysgwyr yn gallu:	Blwyddyn 5 Mae dysgwyr yn gallu:	Blwyddyn 6 Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	**Siarad**	defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir fel arfer, *e.e. ar ben*	defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir, *e.e. fy nghalon*	treiglo'n gywir fel rheol ar ôl y rhan fwyaf o'r arddodiaid a'r rhagenwau, *e.e. am funud, dy fam*	treiglo'n gywir ar ôl arddodiaid a rhagenwau, gan ddechrau dod yn ymwybodol nad yw pob llythyren yn dilyn y drefn arferol, *e.e. y llinell*
	Gwrando	gwrando'n ofalus a gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn y maent yn ei ddysgu a'r hyn y maent eisoes yn ei wybod	gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau	gwrando'n astud ar gyflwyniadau gan ddefnyddio technegau i gofio'r prif bwyntiau, *e.e. gwneud nodiadau, crynhoi*	gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o gasgliadau neu farn y siaradwyr
		gwirio eu bod yn deall drwy ofyn cwestiynau perthnasol neu gynnig sylwadau perthnasol	ar ôl gwrando, ymateb gan fynegi barn am yr hyn y mae'r siaradwr wedi'i ddweud	gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a safbwyntiau'r siaradwr	ymateb i eraill gyda chwestiynau a sylwadau sy'n canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a chamau nesaf
	Cydweithio a thrafod	cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth	cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan helpu pawb i gymryd rhan	cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda, *e.e. cyflwyno syniadau perthnasol, crynhoi*	cyfrannu'n bwrpasol i drafodaeth grŵp er mwyn dod i'r canlyniadau y cytunwyd arnynt
		mynegi barn syml am bynciau a thestunau ysgrifenedig, *e.e. trafod pynciau sydd o fewn cylch eu profiad neu drafod cymeriad mewn stori* ❖	**mynegi barn am bynciau a thestunau ysgrifenedig, *e.e. trafod pwnc sy'n effeithio ar eu hysgol neu drafod beth yw eu barn am ddiweddglo stori*** ❖	**mynegi barn am bynciau a thestunau ysgrifenedig gan gynnig ambell reswm i gefnogi barn** ❖	**mynegi barn yn glir am bynciau a thestunau ysgrifenedig gan gynnig rhesymau i gefnogi barn** ❖
		siarad yn bwrpasol er mwyn cyflawni tasg mewn grŵp.	helpu grŵp i ddod i gytundeb, *e.e. ystyried rhesymau neu ganlyniadau, cadw ffocws ar y pwnc/peidio â dilyn ysgyfarnogod wrth drafod pwnc.*	ychwanegu at a datblygu syniadau dysgwyr eraill mewn trafodaethau grŵp, *e.e. drwy holi cwestiynau i archwilio ymhellach, cynnig syniadau ychwanegol.*	codi pwyntiau o drafodaeth grŵp, gan gytuno neu anghytuno a rhoi rhesymau.

Datblygu sgiliau llafaredd ymhellach …

- Gwaith pâr
- Cyflwyniad unigol
- Gwaith grŵp: datrys problem / mynegi barn / trafod a dod i benderfyniad
- Adrodd yn ôl (yn dilyn trafodaeth grŵp, yn dilyn tasg unigol / gwaith pâr)

Gwrandewch yn ofalus ...

www.tllew.cymru



Gwrandewch yn ofalus ...

Nifer o lyfrau	
Enw'r cartref teuluol	
Dau brif ddiddordeb	
Pryd oedd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerffili?	
Ym mha flwyddyn enillodd ei gadair genedlaethol gyntaf?	
Beth oedd ei berthynas â phentref Coedybryn?	
Beth ddechreuodd e wneud yn ystod yr 1970'au?	
Enwch 4 o gymeriadau yr ysgrifennodd e amdanynt.	
Enwch dri champ gyflawnodd T Llew Jones	
Unrhyw ffaith newydd arall a ddysgoch	

DYMA FRENIN!
1. Yn gyntaf, hoffwn ddweud ...
2. Yn ail, roedd e'n ...
3. Hefyd, ….
4. Yn ogystal â hyn, ...
5. Yn olaf, ...

DYMA FRENIN!
1. Yn gyntaf, hoffwn ddweud ...
2. Yn ail, roedd e'n ...
3. Hefyd, ….
4. Yn ogystal â hyn, ...
5. Yn olaf, ...

Creu amgylchedd sy'n gyfoethog o ran iaith

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu drwy'i gilydd.

Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg, Cyfnod Allweddol 2, 2015

Dylid ystyried yn holistaidd y pedwar datganiad sy'n nodi'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn. Golyga hyn y dylid archwilio gwahanol ieithoedd mewn perhynas â'i gilydd, yn ogystal â sgiliau gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu. Golyga hyn hefyd y dylid ystyried dysgu am a thrwy lenyddiaeth fel rhywbeth sy'n cyfrannu at holl agweddau dysgu am ieithoedd. Mae'r datganiadau yn cefnogi a chadarnhau'i gilydd. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.

Cwricwlwm i Gymru, 2020

Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

(Datganiad o'r hyn sy'n bwysig)

Mae llenyddiaeth yn ehangu gorwelion. Yn ei holl ffurfiau, gall ein hysbrydoli a'n cymell, gall ein helpu hefyd i ddysgu am iaith a chyfathrebu.

Bydd y Maes hwn yn cynnig profiadau llenyddol i ddysgwyr fydd yn ennyn eu diddordeb a'u dychymyg fel gwrandawyr, gwylwyr, darllenwyr, storiwyr a llenorion. Bydd y profiadau hyn yn eu cefnogi i werthfawrogi crefft llenorion a chrewyr yn ogystal â meithrin eu sgiliau creadigol eu hunain. Byddan nhw'n cael eu hannog i brofi ac ymateb i amrywiaeth o lenyddiaeth sy'n cynnig mewnwelediaid i ddiwylliant, pobl a hanes Cymru yn ogystal â'r byd ehangach. Trwy hyn, wrth i'w dealltwriaeth o'u credoau, diwylliannau a'u profiadau eu hunain a phobl eraill gynyddu, gall dysgwyr ddatblygu eu gallu i ddangos empathi. Yn ei dro, gall hyn gyfrannu at eu lles emosiynol a meddyliol. Gyda'i gilydd, nod y profiadau llenyddol hyn yw tanio dychymyg a chreadigrwydd dysgwyr a bod o gymorth i feithrin cariad gydol oes tuag at lenyddiaeth.

(tudalen 133, Cwricwlwm i Gymru 2022)



Edrych ar ddarllen …

Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Cymraeg

Llinyn: Darllen

Ystod o brofiadau

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ddarllen ystod eang o destunau di-dor a phytiog, mewn fformat print neu mewn ffurf ddeinamig, fel sail i'w hymatebion ar lafar ac yn ysgrifenedig. Dylai'r rhain gynnwys:
  - testunau cyflawn a detholiadau
  - testunau gwybodaeth a chyfeiriol
  - barddoniaeth a rhyddiaith draddodiadol a chyfoes
  - nofelau graffig a llyfrau llun
  - drama, gan gynnwys perfformiadau drama
  - testunau sy'n ymwneud â phynciau heriol sy'n ehangu'r gorwelion, sy'n datblygu'r gallu i ymresymu
  - testunau sy'n ymestyn dealltwriaeth ddeallusol, foesol ac emosiynol dysgwyr
  - testunau sy'n cynnwys ystod o strwythurau, ffurfiau, pwrpasau, sy'n apelio at wahanol gynulleidfaoedd a dyfeisiau cyflwyno gwahanol
  - testunau sy'n gyfoethog o ran safon ac amrywiaeth ieithyddol
  - testunau sy'n adlewyrchu dewis darllen personol dysgwyr
  - testunau ag iddynt amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol
  - testunau sy'n amrywio o ran tôn, *e.e. testunau sy'n llawn hiwmor, testunau sy'n cynnwys parodi, testunau sy'n chwarae ar eiriau*
  - testunau sy'n cynnig her
  - testunau sy'n dangos effaith technoleg ar yr iaith
- darllen fel unigolyn a chydag eraill, *e.e. darllen mewn parau, darllen mewn grŵp dan arweiniad, darllen ar y cyd*
- darllen at ddibenion gwahanol, *e.e. er mwynhad personol, i adalw gwybodaeth, i grynhoi a chyfosod gwybodaeth allweddol, i ddehongli a chyfuno gwybodaeth, i ddilysu gwybodaeth, i gyfoethogi dealltwriaeth drwy ail-ddarllen, i adnabod dyfeisiau iaith a ddefnyddir gan yr awdur, i ddadansoddi pwrpas ac i dreiddio dan groen testun am ystyr*
- datblygu'r iaith a'r derminoleg briodol i allu trafod, ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, *e.e. awduron, beirdd, eu cyfoedion,* mewn testunau ysgrifenedig a deinamig.

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu â'i gilydd i'w galluogi i ddod yn ddarllenwyr brwdfrydig, annibynnol a meddylgar.

Mae'r Rhaglenni Astudio Cymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLlRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd y sgiliau sydd yn benodol i'r Rhaglen Astudio Cymraeg yn cael eu dynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eicon hwn.

Sgil rhaglen astudio ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLlRh, yn ffurfio'r Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 2 Cymraeg.

D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.

Defnyddio llenyddiaeth fel sbardun

Pethau i'w hystyried ……

- Ydy'r nofel / stori / testun yn addas i'r oed / dosbarth dan sylw?
- Ydy'r nofel / stori / testun yn cynnig digon o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau iaith?
- Ydy'r nofel / stori / testun yn addas i'r thema?
- A oes modd datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd drwy ddefnyddio'r nofel / stori / testun?
- Ydy'r nofel / stori / testun wedi ei ysgrifennu'n dda?


Beth am ystyried …..


- Ydy eich dewis yn Gymreig ei naws?

Llenyddiaeth … beth sydd ar gael?









































Parhau i ddysgu …

Dewch o hyd i gopi o <u>Dringo'r Wyddfa</u> gan Elin Meek. Darllenwch y gyfrol.



Ystyriwch:

1. Pa fath o destun sydd yma?
2. Mae'r gyfrol yn rhan o gyfres. Ydy teitl y gyfres yn addas? Pam?
3. Gan ddefnyddio'r gyfrol hon fel sbardun i waith dosbarth, dechreuwch feddwl am dasgau addas fyddai'n datblygu sgiliau....

a. llafar

b. gwrando

c. darllen

ch. ysgrifennu … disgyblion CA2.

Tro nesaf, fe fyddwn ni'n ...

- Trafod cynnwys ac arddull y gyfrol **Dringo'r Wyddfa** (Elin Meek);
- Ystyried sut i ddefnyddio'r gyfrol fel sbardun wrth gynllunio gwers(i) Iaith;
- Cynllunio gwers Gymraeg ar gyfer dosbarth CA2;
- Unrhyw beth ychwanegol?

Tro nesaf ….

28ain o Ebrill, 2020

TL 14

(1 tan 5 y prynhawn)

Diolch a …….

